

Pwyso a mesur – ond ein parlys yn costio'n ddrud yn wyneb bygythiad newid hinsawdd

Yr Athro Gareth Wyn Jones yn awgrymu troi cefn ar gwmnïau ynni carbon enfawr a cheisio ffrwyno 'stormydd perffaith' y dyfodol trwy fyrdd o fentrau lleol bychain ...

BLWYDDYN newydd. Cyfle i bwysu a mesur, i ail feddwl, i wneud addunedau - er mai'r duedd yw llithro'n ôl i'r hen ffyrdd.

Tebyg iawn yw ein hymateb i her cynaliadwyedd ac, yn benodol, i sialens newid hinsawdd. Y rhan fwy'n derbyn y dystiolaeth wyddonol ond ddim am weithredu.

Yn ystod 2013, daeth y dystiolaeth yn fwyfwy amlwg - roedd 5ed Adroddiad y Panel Rhyngwladol [yr IPCC] yn dwysau'r rhagolygon hinsoddol a chafwyd tywydd eithafol ar bob cyfandir. Mae costau ein parlys yn cynyddu.

Ein cyfundrefn economaidd sydd wrth wraidd y broblem. Er iddi fendithio rhai ohonom â golud, mae'n hynod amheus a yw'n gynaliadwy i fyd sy'n prysuro at 9 - 10 biliwn o bobol.

Mae'n dibynnu ar dwf economaidd di-ben draw, wedi'i gyplysu'n aml â chred yn anffaeledigrwydd y farchnad rydd. Caiff trachwant a dyled eu goddef - gyda'r 1% gor-gyfoethog yn cael rhwydd hynt i osgoi trethi a chyfrifoldeb - a goblygiadau amgylcheddol a chymdeithasol wedi'u hanwybyddu, efo dosbarth sylweddol yn dlawd 'ar y tu fa's'.

Am y tro cyntaf mewn hanes, mae gweithgareddau dyn yn newid cylchoedd geofwydegol ein planed.

Os diffyg cynaliadwyedd yw'r clefyd, y symptom amlycaf yw dibyniaeth ar ynni rhad o danwydd hydrocarbon - glo, olew a nwy. Ac un canlyniad yw allyrron nwyon tŷ gwydr, yn arbennig CO₂ a methan.

GADAEI GWADDOL PERYGLUS A DRUD

Mae gwledydd yr Almaen a Denmarc yn symud yn bendant at ynni di-CO₂ - a ninnau'n tindroi gyda ffrasio ac ynni niwclear hynod o gostus, sy'n gadael gwaddol peryglus a drud am ganrifoedd!

Ond mae newyddion da ym maes ynni adnewyddadwy - costau'n lleihau'n gyflym a thechnoleg yn gwella dulliau cynhyrchu, storio a rheoli'r galw am drydan.

Rhaid gostwng dogn y pen trwy'r byd o allyrron nwyon tŷ gwydr i tua 1.5-2 tunnell y pen erbyn canol y ganrif o gymharu a 15 tunnell yng Nghymru rwan, 7 tunnell ledled y byd.

Bydd rhaid defnyddio canran sylweddol o'r dogn i'n bwydo, gan fod amaethu a'r gadwyn fwyd yn gollwng CO₂, methan a N₂O.

Felly, rhaid i weddill ein hynni ddod o ffynonellau carbon niwtral, gan gynnwys tanwydd awyrennau a llongau, cynhyrchu haearn a dur a sment etc.

Mater technegol ac, i raddau gwleidyddol, yw cynhyrchu a dosbarthu ynni adnewyddadwy. Rwy'n hyderus, os ydym o ddifri, bod atebion.

Mater llawer anoddach yw newid ein meddylfryd a gwrthsefyll pwysau'r cwmnïau a'r gwledydd sy'n elwa'n enfawr o'r drefn bresennol ac sy'n fwriadol hau amheumon.

Byddai'n llawer haws a rhatach datrys y broblem trwy fyw'n well ar lai - cynllunio a gweithredu'n genedlaethol, lleol a phersonol i ddefnyddio a gwastraffu llawer llai.

Mae'r profiad a'r wybodaeth ar gael i wneud hyn.

Does yr un ffynhonnell ynni'n ddi-wrthdaro - adnewyddol neu beidio – felly, lleihau'r gofyn ddylai'r prif amcan fod.

Yn hytrach na gorddibyniaeth ar gynlluniau mawr a chwmnïau rhyngwladol, oni fyddai'n well datblygu miloedd o gynlluniau bach ynni personol a lleol gan sicrhau mwy o annibyniaeth a gwytnwch lleol, mantais i unigolion a chymunedau lleol os yw pris ynni'n codi a chyfle i hybu marchnad a gwaith lleol? Cam at gynaliadwyedd!

Gobeithio y down i sylweddoli lle canolog ynni yn ein bywydau - nid adnodd i'w hawlio wrth droi switsh!

TRYCHINEBAU NEU WELEDIGAETH WALDO?

Ofn mawr John Beddington, cyn Brif Wyddonydd Llywodraeth Prydain, yw'r 'Storm Berffaith' - cydblethiad o newid hinsawdd gyda chnydau gwael, cystadleuaeth am ddŵr ac adnoddau eraill, cynnydd yn lefel y môr, twf poblogaeth, tloedi a dadrithio cymdeithasol yn arwain at drychinebau.

Gwelwyd y llanast yn Aberystwyth a manau tebyg, yn codi o 'gydblethiad' o stormydd eithriadol a llanw uchel.

Ystyriwch, o fewn oes plant heddiw, y gyflafan pan fydd tywydd tebyg yn cyddaro â lefel môr rhwng hanner metr a metr yn uwch!

Da gweld y Pab ac Archesgob Caergaint dros y Nadolig yn beirniadu annhegwch a materoliaeth ddi-hid.

Mae'r weledigaeth gynaliadwy'n un positif a chadarnhaol heb well mynegiant ohoni na geiriau Waldo:

Bydd mwyn gymdeithas.

Bydd eang urddas.

Bydd mur i'r ddinas.

Bydd terfyn traha.

Ionawr 9, 2014